# CODI'R GWASTAD

Briff polisi Prifysgol Caerdydd, Chwefror 2022

## Trosolwg

Mae papur gwyn Llywodraeth y DU sef Codi'r Gwastad yn [1]gosod cynlluniau i leihau'r gwahaniaethau rhwng rhannau cyfoethocach a thlotach o'r DU drwy 12 "cenhadaeth" genedlaethol sydd â'r nod o leihau anghydraddoldeb yn y gymdeithas erbyn 2030. Mae'r rhain yn cynnwys targed o ran gwariant ymchwil a datblygu, gyda'r nod o gynyddu buddsoddiad cyhoeddus mewn ymchwil a datblygu y tu allan i'r 'triongl euraidd' o leiaf 40% erbyn 2030, a bydd ymrwymiad gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol i fuddsoddi o leiaf 55% o'u cyllid ymchwil a datblygu domestig y tu allan i'r rhanbarth erbyn 2024-25.

Mae Prifysgol Caerdydd yn croesawu egwyddorion a maint yr uchelgais, ond mae'n annog Llywodraethau'r DU a Chymru i gydweithio i sicrhau bod Codi'r Gwastad yn digwydd ledled Cymru, gan ganolbwyntio ar greu swyddi hirdymor o safon uchel yn niwydiannau'r dyfodol.

## Codi'r Gwastad yng Nghymru

Mae prifysgolion ymchwil-ddwys eisoes yn chwistrellu bron i £87 biliwn i economi'r DU bob blwyddyn yn sgîl eu hymchwil, eu haddysgu, eu hallforion, eu pŵer prynu lleol a gweithgareddau eraill; maen nhw hefyd yn cefnogi mwy na 260,000 o swyddi ar draws trefi a dinasoedd y DU – y rhan helaethaf y tu allan i Lundain. [2]

Rhwng 2014 a 2020, crëwyd mwy na 3,600 o swyddi newydd gan gwmnïau deillio sydd wedi'u cysylltu'n benodol â Phrifysgol Caerdydd, ar draws 1,277 o gwmnïau gweithredol a'u trosiant cyfunol yw £181m sy'n arwain at £54m o fuddsoddiadau lleol. Un cyfraniad nodedig yw bod Prifysgol Caerdydd yn bartner arweiniol yng nghlwstwr lled-ddargludyddion cyfansawdd cyntaf y byd yng Nghymru. Mae CSconnected yn helpu De Cymru i fod yn arweinydd byd-eang o ran galluogi technolegau newydd sy'n datblygu. [3]

Ac eto, o dan y ffigurau trawiadol hyn, mae perygl i Gymru ddisgyn y tu ôl i rannau eraill o'r DU oni bai bod buddsoddi parhaus yn ein seilwaith ymchwil ac arloesedd. Mae papur gwyn Llywodraeth y DU yn ymrwymo cyfanswm o £100m dros dair blynedd i dreialu tri Chyflymydd Arloesedd newydd ym ardal Manceinion Fwyaf, Gorllewin Canolbarth Lloegr, a Dinas-ranbarth Glasgow, a hwyrach y bydd y fenter hon yn cael ei datblygu ymhellach yn y dyfodol. Nid oes yr un Cyflymydd Arloesedd cyfatebol wedi'i gynllunio yng Nghymru, ac er bod buddsoddi ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd drwy'r Fargen Ddinesig a Thwf i'w groesawu, nid yw papur gwyn Codi'r Gwastad yn cynnwys yr un addewid pellach o ran buddsoddiadau.

Mae buddsoddi cyhoeddus mewn Ymchwil a Datblygu yn helpu i sbarduno buddsoddiadau sylweddol yn y sector preifat. Mae dadansoddiad Llywodraeth y DU yn dangos bod £1 ychwanegol o wariant cyhoeddus ym maes Ymchwil a Datblygu yn arwain at gynnydd o £1.36 o ran cyllid Ymchwil a Datblygu preifat dros gyfnod o ddeng mlynedd.[4] Yn ôl y data cyhoeddus diweddaraf[5][6][7], Cymru sydd â'r ail lefel isaf o wariant ar ymchwil a datblygu yn gyffredinol, y lefel isaf fesul person a'r twf arafaf ond un o ran gwariant ymchwil a datblygu preifat ymhlith gwledydd a rhanbarthau cymaradwy eraill y DU. Daeth adroddiad yn 2020 i'r casgliad bod anghydbwysedd mewn

---

[1] Llywodraeth y DU (2022) Levelling Up: delivering for all parts of the UK, Llundain: Llywodraeth y DU.
[2] Russell Group (2022) Russell Group universities boosting the economy in every region of the UK, gwefan Grŵp Russell (cyrchwyd 11 Chwefror 2022).
[3] Welsh Economy Research Unit (2022) Annual Report: compound semiconductor cluster in South Wales, Cardiff: CS Connected / WERU.
[4] Economic Insight (2015) What is the relationship between public and private investment in science, research and innovation?: a report commissioned by the Department for Business, Innovation and Skill, Llundain: Llywodraeth y DU.
[5] Office for National Statistics (2020) *Gross domestic expenditure on research and development, by region: y DU*, Casnewydd: Office for National Statistics.
[6] Rhodes, C., Hutton, G. a Ward, M. (2020) *Research Briefing: research and development spending*,Llundain: Senedd y DU.
[7] Llywodraeth Cymru. (2020) *Gwariant menter busnes ymchwil a datblygu: 2019*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

gwariant ymchwil a datblygu yn golygu bod Cymru'n colli allan ar £420m o fuddsoddiad ymchwil a datblygu cyhoeddus yn ogystal ag effaith luosi sylweddol yn y sector preifat.[8]

Mae prifysgolion yn bwysicach i ymchwil a datblygu yng Nghymru o'u cymharu â lefel y DU.[9,10] Yn ystod yr ugain mlynedd ddiwethaf, mae byd addysg uwch wedi goddiweddyd y sector preifat ddwywaith o ran gwariant ymchwil a datblygu (nid yw hyn wedi digwydd ar lefel y DU). Os yw Llywodraeth y DU eisiau i bolisi Codi'r Gwastad fod yn llwyddiant, mae'n rhaid defnyddio'r sector AU.

## Cronfa Rhannu Ffyniant y DU

Un o'r prif ddulliau i godi'r gwastad yw Cronfa Rhannu Ffyniant y DU (UKSPF). Addawodd Maniffesto'r Ceidwadwyr yn 2019[11] y byddai UKSPF yn mynd i'r afael ag "*anghydraddoldeb ac amddifadedd ym mhob un o'r pedair gwlad*" ac "*yn rhoi arian cyfatebol sydd o leiaf yr un maint â'r cronfeydd [strwythurol yr UE] ym mhob gwlad*". Mae hwn bellach wedi cael ei ailadrodd wrth y blwch dogfennau yn San Steffan ac mewn datganiadau i'r cyfryngau.[12][13]

Cyn Brexit, roedd Cymru'n elwa'n sylweddol ar gyllid datblygu rhyngwladol yr UE. Roedd hyn yn arbennig o bwysig i brifysgolion a gafodd tua £570m o gronfeydd strwythurol Ewropeaidd ers troad y filflwydd. Yn achos Prifysgol Caerdydd, roedd y cyllid hwn yn allweddol o ran nifer o'n prif fentrau, gan gynnwys Canolfan Delweddu'r Ymennydd yn y Brifysgol sy'n adeilad o'r radd flaenaf, ein Cyflymydd Arloesedd Data sy'n cynnig arbenigedd ar ddata i gwmnïau bach, a'n cyfraniadau i glwstwr lled-ddargludyddion cyfansawdd de Cymru. Roedd y cyllid yn golygu bod modd i brifysgolion a phartneriaid ehangach gydweithio â'i gilydd, a chafodd hyn effaith gadarnhaol ar yr economi leol yn sgîl hynny.

Mae'r UKSPF yn hytrach na chronfeydd yr UE yn gyfle ac yn her. Cydnabuwyd hyn gan y Pwyllgor Materion Cymreig, a argymhellodd[14] y dylai Llywodraeth y DU weithio gyda'r llywodraethau datganoledig i gytuno ar flaenoriaethau'r UKSPF a sut y dylai weithio. Yn y cyfamser, mae'r Institute for Government wedi rhybuddio[15] y bydd dull presennol Llywodraeth y DU o ymdrin â'r UKSPF yn arwain hwyrach at ddyblygu gwaith, gan y bydd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn ariannu mentrau tebyg sy'n cystadlu â'i gilydd – gan gynyddu tensiynau pellach rhwng y DU a'r llywodraethau datganoledig.

## Argymhellion

Mae Prifysgol Caerdydd yn argymell y dylai Llywodraeth y DU:

- Gosod fframwaith cyffredin ar gyfer cyllid datblygu rhanbarthol er mwyn pennu amodau'r cydweithio rhwng pedair llywodraeth y DU.[16]
- Peidio â gorfodi rhanbarthau na gwledydd y DU i ddewis rhwng mentrau datblygu economaidd cystadleuol (ni ddylai polisi Codi'r Gwastad olygu bod yn rhaid i brifysgolion ddewis ochr o blith Caerdydd a San Steffan).

Mae'r argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru ar gael ar wahân drwy ebostio PublicAffairs@caerdydd.ac.uk

---

[8] Forth, T. & Jones, R. (2020) The Missing £4 Billion: making R&D work for the whole UK, Llundain: Nesta, t7.
[9] StatsCymru (2020) Gwariant ymchwil a datblygu yng Nghymru, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
[10] Office for National Statistics (2020) Gwariant Ymchwil a Datblygu, Casnewydd: Office for National Statistics.
[11] Conservative Party (2019) Get Brexit Done, Unleash Britain's Potential: the Conservative & Unionist Party Manifesto 2019, Llundain: Conservative Party.
[12] *Hansard* HC Deb. *cyf.669 col.1007*, 15 Ionawr 2020.
[13] Wells, I. (2020) Brexit: Wales' EU aid replacement progress 'unacceptable', Llundain: BBC.
[14] House of Commons Welsh Affairs Committee (2020) Wales and the Shared Prosperity Fund: priorities for the replacement of EU structural funding, Llundain: Senedd y DU.
[15] Nice, A., Paun, A. a Hall, D. (2021) The UK Shared Prosperity Fund: Strengthening the union or undermining devolution?, Llundain: Institute for Government.
[16] Gallai hyn ddefnyddio'r canlynol:
- Dougan, M. *et al.* (2020) *UK Internal Market Bill, Devolution and the Union*, Caeredin: Centre on Constitutional Change.
- Institute of Welsh Affairs (2021) What does 'Levelling Up' mean for Wales?, Caerdydd: IWA.